

Nod Proiect Sir Benfro yw mynd i'r afael â lefelau dwfn o haint mewn rhannau o Sir Benfro, lle mae achosion o twbercwlosis (TB) a mynychder TB wedi gwaethgu o'i gymharu â'r cefndir cenedlaethol cyffredinol sy'n gwella. Nod y prosiect yw hwyluso cydweithio rhwng milfeddygon a ffermwyr gan roi grym i benderfyniadau gwybodus lleol ac arweinyddiaeth mewn rheoli clefydau. Wrth wraidd y prosiect mae cydweithio rhwng milfeddyg rhagweithiol a ffermwr rhagweithiol sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â TB buchol ar lefel leol. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan Iechyd Da, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a Chanolfan Ragoriaeth Sêr Cymru ar gyfer TB Buchol ym Mhrifysgol Aberystwyth i integreiddio ymchwil a datblygu â gwaith milfeddygol ymarferol i gefnogi a chryfhau rheolaeth TB. Mae'r prosiect yn rhoi rhyddid rhag rheolaeth neu ddylanwad allanol drwy:

1. Ddefnyddio'r dadansoddiad data o ganlyniadau profion croen TB buchol sydd eisoes yn bodoli i nodi'r anifeiliaid sy'n uchel eu risg.
2. Difa anifeiliaid risg uchel yn wirfoddol.
3. Gwell bioddiogelwch ar ffermydd


Sut ydyn ni'n gwneud hyn?

1. Hyfforddi milfeddygon a ffermwyr i wella gwybodaeth am TB buchol.
2. Defnyddio offeryn sgorio cyffredinol i asesu risg bioddiogelwch gan ychwanegu TB buchol.
3. Defnyddio dadansoddiad data o ganlyniadau profion croen TB buchol o'r gorffennol i nodi anifeiliaid uchel eu risg.
4. Dadansoddi heintiau cydamserol ar y fferm (e.e. clefyd Johne).
5. Creu arolwg ar gyfer ffermwyr a milfeddygon i wella'r wybodaeth yn y gwyddorau cymdeithasol ynghylch TB buchol.
6. Trafod ecoleg moch daear a gwella bioddiogelwch ar y fferm o ran bywyd gwyllt.
7. Nodi gofynion am ymchwil pellach yn ôl yr angen a ddangosir gan y prosiect.

Mae nifer o filfeddygon o 6 practis wedi cael eu dewis i dderbyn hyfforddiant TB buchol uwch. Mae'r 6 practis hyn wedi dewis 15 fferm i gynnal ymweliadau bioddiogelwch uwch ac i weithio â mesurau ychwanegol yn ystod y prosiect dwy flynedd. Disgrifir elfennau hanfodol y prosiect isod a byddant yn cael eu trafod.


Dadansoddi Data, ymchwil a Gwyddoniaeth – Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twbercwlosis Buchol, Prifysgol Aberystwyth

1. Cyngor a hyfforddiant yn unol â chanfyddiadau'r ymchwil diweddaraf a'r ddealltwriaeth o TB buchol.
2. Dadansoddi data ar heintiau cydamserol gan gynnwys Dolur Rhydd Firol Buchol a chlefyd Johne's.
3. Trafodaethau a chyngor ynghylch ecoleg moch daear gan gynnwys data cyfredol am foch daear ar gyfer cynefin pob fferm a astudir.
4. Mae'r prosiect hefyd yn darparu samplau ar gyfer ymchwil cyfredol TB buchol i helpu i ddeall mecanweithiau sylfaenol dyfalbarhad yr haint *Mycobacterium bovis* ar ffermydd.



Ap HERDSAFE - i Adnabod

1. Mae pob fferm yn cael ymweliad bioddiogelwch ar ddechrau'r prosiect, ac yn cael sgôr risg wedi'i phwysoli ar gyfer pob risg bioddiogelwch.
2. Rhoddir cyfanswm sgôr risg i bob fferm. Cynhyrchir adroddiad pwrpasol yn amlinellu rhai camau y cytunwyd arnynt i'w cyflawni, a'r newid disgwylidig i'r sgôr risg.
3. Mae'r milfeddyg yn defnyddio'r ap i ddangos effaith yr arferion ffermio bioddiogelwch arfaethedig ar y sgoriau risg sydd wedi'u pwysoli.
4. Yna cynhyrchir cyfanswm sgôr risg newydd wedi'i wella, a sgôr yn defnyddio nifer o sêr.
5. Bydd yr ap yn cael ei ddefnyddio ar ymweliadau dilynol i asesu'r newidiadau a wneir ar y fferm ac i fonitro cynnydd.



Dadansoddi data – MV Diagnostics

1. Roedd cynllun peilot Enferplex Cymru yn edrych am ffordd i ddewis anifeiliaid uchel eu risg ar gyfer profion ychwanegol. Crëwyd algorithm gan MV Diagnostics gan ddefnyddio canlyniadau profi ac fe gynhyrchwyd sgôr risg ar gyfer pob anifail ar y fferm. Mae'r dadansoddiad hefyd yn rhoi darlun cronolegol dros amser o'r hyn sy'n digwydd ar y fferm o ran clefydau gweddilliol.
2. Mae "cyfradd risg" yn defnyddio data hanesyddol SICCT o fuchesi ac unigolion, ynghyd â dehongliad mwy manwl o'r canlyniadau i nodi anifeiliaid uchel eu risg. Mae'r dadansoddiad yn digwydd dros amser i weld pryd a pha mor aml y nodir bod anifeiliaid unigol yn uchel eu risg o gael eu heintio â *M.*

Bovis. Mae'r data'n cael ei gyfrif ac mae system goleuadau traffig yn cael ei dyrannu i'r unigolion yn y fuches. Coch – risg uchel, Oren a Gwyrdd. Cynghorir fod anifeiliaid coch yn cael eu difa'n wirfoddol.

3. Gellir difa anifeiliaid sy'n cael eu nodi fel risg uchel ar adeg sy'n gyfleus i'r ffermwr – e.e. ar ddiwedd y llaetha, pan fydd y fuwch yn ddiffwrwyth, ond yn aml mae gan yr anifeiliaid risg uchel hyn glefydau cydamserol hefyd. Bydd y milfeddygon yn dadansoddi'r daenlen gyda'r ffermwyr.

Gwyddorau cymdeithasol - Prifysgol Aberystwyth.

1. Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle unigryw i ddylanwadu ar ymddygiad ffermwyr mewn modd cadarnhaol o ran rheoli TB a dysgu ganddynt er mwyn gweithredu yn ehangach ac i lywio polisi.
2. Mae gwyddoniaeth newid ymddygiad yn defnyddio dull systematig o ddeall y mecanweithiau sylfaenol a fyddai'n sbarduno newid mewn ymddygiad.
3. Mae'r prosiect yn cyflawni ystod o ymyriadau gyda'r nod o rymuso ffermwyr a milfeddygon.
4. Bydd integreiddio'r Gwyddorau Cymdeithasol a Naturiol yn ein galluogi i fonitro a deall llwyddiannau a heriau'r prosiect. Bydd yn gwella'r ffordd y mae'r ddealltwriaeth a'r defnydd o risg yn cael ei gyfathrebu i rymuso milfeddygon a ffermwyr er mwyn nodi a lleihau'r risg o heintiau gweddilliol ar y fferm.

Arwainwyr y prosiect yw Brendan Griffin, Fenton Vets a Iechyd Da a Beverley Hopkins o Ganolfan Ragoriaeth Sêr Cymru ar gyfer Twbercwlosis Buchol ym Mhrifysgol Aberystwyth